| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **177 – Rheoliadau Sylweddau sy’n Teneuo’r Osôn a Nwyon Tŷ Gwydr wedi’u Fflworeiddio (Diwygio etc) (Ymadael â’r UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 13 Hydref 2020* | |
| **Sifftio** | |
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydynt |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 81 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw’n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 27/10/20 |

**Cefndir**
Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) ac 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**
Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i'r offerynnau a ganlyn:

- Rheoliadau Sylweddau sy’n Teneuo’r Osôn a Nwyon Tŷ Gwydr wedi’u Fflworeiddio (Diwygio etc) (Ymadael â’r UE) 2019 (“Rheoliadau 2019”), a

- Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi’u Fflworeiddio 2015

Mae'r offeryn hwn yn diwygio'r Offerynau Statudol uchod sy’n ymwneud ag ymadael â’r UE er mwyn cywiro diffygion gweithredadwyedd, fel na fydd deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn y DU ar ddefnyddio nwyon tŷ gwydr wedi’u fflworeiddio a sylweddau sy’n teneuo’r osôn yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon ac y bydd yn berthnasol ym Mhrydain Fawr yn unig. Bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i fod yn ddarostyngedig i

ddeddfwriaeth yr UE o ran nwyon wedi’u fflworeiddio a sylweddau sy’n teneuo’r osôn o dan y Protocol ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon.

Bydd Rheoliadau 2019, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn trosglwyddo pwerau a oedd yn nwylo Comisiwn yr UE yn flaenorol i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cyflwyno darpariaethau i reoli symudiad nwyon wedi’u fflworeiddio a sylweddau sy’n teneuo’r osôn rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Mae’r darpariaethau hyn yn diffinio y bydd y symudiadau hyn yn cael eu hystyried yn fewnforion/allforion at ddibenion masnach nwyon wedi’u fflworeiddio a sylweddau sy’n teneuo’r osôn. Mae rheoli’r fasnach hon rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn hanfodol i gynnal integriti systemau nwyon wedi’u fflworeiddio a sylweddau sy’n teneuo’r osôn Prydain Fawr (a’r UE), ac i sicrhau bod y DU yn parhau i gydymffurfio â’i goblygiadau rhyngwladol o dan Brotocol Montreal.

Gwneir y diwygiadau hyn i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu ac nad oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 15 Hydref 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.